

## Hysbysiad Preifatrwydd — Go Wales Plus

Mae tîm GO Wales Plus yn rhan o [Wasanaeth Gyrfaoedd Prifysgol Metropolitan Caerdydd](#).

Mae rhaglen GO Wales Plus wedi'i chynllunio i wella sgiliau cyflogadwyedd graddedigion Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae'n rhaglen sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, wedi'i theilwra i anghenion unigolion. Fe'i crëwyd mewn ymateb i ymrwymiad Llywodraeth Cymru i roi cyllid ychwanegol i brifysgolion, er mwyn cefnogi graddedigion a'r rôl y byddant yn ei chwarae yn adferiad economaidd COVID-19 Cymru. Y graddedigion sy'n gymwys ar gyfer y cymorth hwn yw'r rhai o flynyddoedd 2020, 2021 a 2022.

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd canlynol yn disgrifio sut y rheolir eich data gan GO Wales Plus yn unol â deddfwriaeth diogelu data - Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA18).

### Cyflwyniad

Prifysgol Metropolitan Caerdydd yw'r Rheolwr Data ac mae wedi ymrwymo i ddiogelu hawliau unigolion yn unol â GDPR y DU a'r DPA18. Mae Datganiad Preifatrwydd y Brifysgol ar gael [yma](#).

### Cyswllt Diogelu Data

Gellir cysylltu â Swyddog Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth Data Prifysgol Metropolitan Caerdydd drwy'r llwybrau canlynol (os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach ynglŷn â phrosesu eich data):

E-bost: [SWeaver@cardiffmet.ac.uk](mailto:SWeaver@cardiffmet.ac.uk) a/neu [dataprotection@cardiffmet.ac.uk](mailto:dataprotection@cardiffmet.ac.uk) .

### Trosolwg

Drwy gyfrwng yr hysbysiad hwn, mae GO Wales Plus yn dymuno rhoi gwybod i chi am y canlynol:

- Y Data Personol a Data Categori Arbennig mae GO Wales Plus yn ei gasglu;
- Pam mae GO Wales Plus yn casglu ac yn prosesu'r data hwn;
- Pwy sydd â mynediad at y data hwn a gyda phwy y mae GO Wales Plus yn rhannu'r data;
- Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu Data Personol a Chategori Arbennig;
- Hawliau Unigol;
- Mesurau technegol a sefydliadol i sicrhau bod Data Personol yn parhau'n ddiogel;
- Cyfnodau cadw; a
- Gwybodaeth gyffredinol.

### Data Personol a gasglwyd

Cyfeiriad

Cyfeiriad e-bost

Enw

Galwedigaeth

Rhif Ffôn

Côd Post

Rhif Myfyriwr

### Data Categori Arbennig a Gasglwyd

(Sylwer: Data Categori Arbennig yw data personol sydd angen mwy o ddiogelwch oherwydd ei fod yn sensitif)

Data sy'n ymwneud ag iechyd

Data sy'n datgelu tarddiad hiliol neu ethnig

Data sy'n datgelu credoau crefyddol neu athronyddol

### Ar gyfer beth mae GO Wales Plus yn defnyddio'ch Data Personol

Mae GO Wales Plus yn defnyddio eich data personol er mwyn i chi fodloni amodau cyffredinol y rhaglen:

#### **Adran 1: Ymddygiad**

1. Ymrwymo i wneud pob ymdrech i gael y dysgu mwyaf posibl o'r rhaglen.
2. Mynychu cyfarfodydd a drefnir gyda Swyddogion Cymorth Cyflogadwyedd a chyflogwyr.
3. Bod yn barod i weithio gyda Swyddog Cymorth Cyflogadwyedd, i gwblhau asesiadau cyflogadwyedd, ymgymryd ag e-ddysgu, nodi amcanion gyrfa, myfyrio ar ddysgu, a chynllunio eich camau nesaf.
4. Byddwch yn barod i ddarparu tystiolaeth ddogfennol i brofi eich bod yn gymwys i gymryd rhan yn y rhaglen.
5. Trafodwch â'ch Swyddog Cymorth Cyflogadwyedd unrhyw gymorth ychwanegol neu addasiadau rhesymol a allai fod eu hangen i gynnal cyfarfodydd yn llwyddiannus.
6. Cydymffurfio â thelerau ac amodau diogelwch gwybodaeth y rhaglen ac unrhyw gyflogwr sy'n eich lletya fel intern.
7. Deall na fydd unrhyw ymddygiad ymosodol neu fygythiol tuag at staff a gyflogir gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd yn cael ei oddef a bydd yn arwain at derfynu eich lle ar y rhaglen.

#### **Adran 2: Cymorth**

1. Datgelwch unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen arnoch i'ch Swyddog Cymorth Cyflogadwyedd i'w galluogi i ddeall a diwallu eich anghenion yn y ffordd orau.
2. Datgelwch unrhyw amgylchiadau sy'n bodloni grwpiau "blaenoriaeth" y rhaglen fel y nodir gan ganllawiau Cronfa Cymorth i Raddedigion 2020 Cyllid Addysg Uwch Cymru.
3. Deall y bydd grwpiau penodol yn cael eu blaenoriaethu ar adegau prysur yn seiliedig ar angen ac amgylchiadau, mae hyn yn ôl disgrisiwn tîm GO Wales Plus, yn seiliedig ar system glir a thryloyw sy'n nodi'r rhai sydd fwyaf tebygol o ddioddef anfantais lluosog, ac felly sydd â'r angen mwyaf o gefnogaeth.
4. Er bod pob ymdrech yn cael ei wneud i gyflawni ein dyletswydd o dan Fesur y Gymraeg 2011, gan gynnwys adnoddau dwyieithog, ar hyn o bryd nid yw systemau a phartneriaid yn gallu darparu adnoddau Cymraeg ac felly mae'r rhaglen yn cynnig dull cyfunol.

5. Wrth gofrestru ar gyfer Telerau ac Amodau trydydd parti, deallwch fod y rhain allan o gylch gwaith GO Wales | Supporting Graduate Futures, nad yw'n gyfrifol am gipio a storio eich data a rhaid i chi ddarllen a chytuno i delerau ac amodau ar wahân yn yr achos hwn.

### **Adran 3: Gwaith â Thâl (interniaethau wedi'u trefnu gan GO Wales Plus)**

1. Cydnabod eich bod yn cael eich cyflogi gan y cyflogwr lletyol a'ch bod yn ddarostyngedig i'w Telerau ac Amodau Cyflogaeth, a ddylai fod ar gael i chi ar gais.

2. Cydymffurfio â'r holl reolau a rheoliadau iechyd a diogelwch yng ngweithle'r cyflogwr, naill ai trwy gyfarwyddiadau a hyfforddiant, neu fel yr arddangosir.

3. Rhoi gwybod i'ch cyflogwr os nad ydych yn deall cyfarwyddyd, unrhyw un o'r gweithdrefnau diogelwch, neu os nad ydych yn teimlo'n hyderus i gyflawni gweithgareddau'n ddiogel gan gynnwys cadw at yr holl reoliadau a chanllawiau COVID-19 sydd ar waith ar adeg eich interniaeth.

4. Cynnal a chyflwyno Cynllun Datblygu Gyrfa manwl priodol yn amlinellu eich amcanion gyrfa.

5. Defnyddio ymdrechion gorau i gymhwyso gwybodaeth a sgiliau a gafwyd yn ystod eich cwrs gradd; dysgu am fywyd gwaith a'r amgylchedd gwaith; cwrdd â heriau ac ehangu eich gorwelion.

6. Rhoi adborth i'ch Swyddog Cymorth Cyflogadwyedd ar ddiwedd eich amser ar y rhaglen drwy arolwg ymadael a chydweithredu â'r Swyddog Cymorth Cyflogadwyedd neu gynrychiolwyr eraill y rhaglen mewn unrhyw werthusiad dilynol o raglen GO Wales | Supporting Graduate Futures.

7. Na fyddwch, ar unrhyw adeg, p'un ai yn ystod neu ar ôl eich cyfle interniaeth, yn datgelu i drydydd parti unrhyw wybodaeth gyfrinachol a gewch yn ystod eich cyfle profiad gwaith.

8. Lle bo'n berthnasol, i gyflenwi eich Swyddog Cymorth Cyflogadwyedd gyda chopïau o docynnau a/neu dderbynebaw, fel y bo'n briodol. Rhaid i gostau teithio gynnwys costau teithio gwirioneddol e.e. milltiroedd car a thaith trên a bydd y tîm yn sicrhau bod y costau i'w priodoli'n wirioneddol i'r cyfle profiad gwaith ac nid i rywbeth arall.

9. Defnyddio ymdrechion gorau wrth hawlio costau teithio i sicrhau'r dull cludo mwyaf economaidd a'r llwybr mwyaf uniongyrchol sydd ar gael. Fel arfer bydd hyn yn drafndiaeth gyhoeddus ond os nad yw trafndiaeth gyhoeddus ar gael, yn anymarferol, neu'n cael ei ystyried yn anniogel, gellir ystyried trefniadau cludiant eraill. Dim ond costau gwirioneddol, hyd at uchafswm o filltiroedd a chyfradd y sector cyhoeddus fesul milltir neu deithio dosbarth economi ar drafndiaeth gyhoeddus y gellir eu hawlio. Hawlio costau teithio o fewn 28 diwrnod ar ôl i'r interniaeth ddigwydd oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

11. Er mwyn cydymffurfio â'n canllawiau gan Lywodraeth Cymru, deall mai dim ond cwmnïau yng Nghymru sydd â chwmpas ar hyn o bryd ar gyfer cyfleoedd interniaeth â thâl **a bydd angen yr hawl arnoch i weithio yn y DU i gael mynediad at y rhain.**

12. Er mwyn deall, er y bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau cyfle addas ar gyfer interniaeth â thâl i chi yng Nghymru, os yw cyllid, neu gyfleoedd yn gyfyngedig, efallai y cewch eich cyfeirio at drydydd partiön i ofyn am eu cefnogaeth i sicrhau cyfleoedd.

13. Byddwch yn ymwybodol y gellid gwneud newidiadau i'r rhaglen ar fyr rybudd oherwydd pandemig COVID-19, a dyletswydd Prifysgol Metropolitan Caerdydd i gydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol a rhanbarthol.

#### Rhannu Gwybodaeth gyda Sefydliadau Eraill

Mae holl staff y Gwasanaeth Gyrfaoedd yn gweithio o fewn cod cyfrinachedd sydd wedi'i gynllunio i ddiogelu buddiannau ein grŵp cleientiaid.

Mae natur ein polisi yn golygu y bydd unrhyw beth y byddwch yn ei drafod gydag aelod o staff yn aros yn gyfrinachol o fewn y gwasanaeth hwn. Gellir trafod materion rhwng aelodau'r tîm o fewn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Myfyrwyr a Chyflogadwyedd yn unol â barn broffesiynol, ac mae'r holl ddogfennau ar gael i'r tîm, sy'n ein galluogi i ddarparu gwasanaeth llawn a hyblyg.

Ni fydd eich hunaniaeth na manylion ein cyswllt â chi yn cael eu trosglwyddo i unrhyw unigolyn neu sefydliad arall, naill ai o fewn Prifysgol Metropolitan Caerdydd neu y tu allan i'r sefydliad oni bai am y diben penodol o sicrhau gwaith â thâl gyda chyflogwr ar eich rhan, a gyda'ch cytundeb ymlaen llaw, neu ar gyfer y rhesymau canlynol:

Mae rhai achosion pan fydd eich data yn cael ei rannu. Mae'r rhain yn amgylchiadau eithriadol a lle bynnag y bo'n briodol gwneir ymdrechion i drafod manylion gyda chi. Gall amgylchiadau o'r fath gynnwys:

- Pan fyddwch chi'n peri risg i chi'ch hun neu i eraill;
- Pan fydd rhwymedigaeth gyfreithiol yn bodoli; a
- Pan fyddwch yn caniatáu i ryddhau gwybodaeth.

#### Sail Gyfreithiol GO Wales Plus ar gyfer Prosesu Eich Data Personol

I brosesu eich Data Personol, mae'n rhaid i GO Wales Plus sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag un o'r 'seiliau cyfreithlon' ar gyfer prosesu data o dan Erthygl 6 GDPR y DU. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddo fod â rheswm cyfreithlon dros ddefnyddio/storio gwybodaeth bersonol at y dibenion a amlinellir yn adran "What GO Wales Plus uses your Data Personal for" yn yr hysbysiad hwn.

#### **Erthygl 6.1 (a) — Caniatâd , Erthygl 9 (a) - Caniatâd Eithriadol**

Bydd GO Wales Plus yn dibynnu ar eich caniatâd penodol er mwyn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol. Pan fydd GO Wales Plus yn gofyn am y caniatâd hwn, cewch eich hysbysu'n llawn am y rhesymau pam mae angen eich data, a bydd gennych yr hawl i dynnu'r caniatâd hwnnw yn ôl ar unrhyw adeg.

#### Hawliau Unigol

Gall y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu effeithio ar ba Hawliau sydd ar gael i unigolion. Gan ddefnyddio Caniatâd fel sail gyfreithlon ar gyfer prosesu, mae eich Hawliau Unigol yn cynnwys:

- Yr Hawl i Fynediad
- Yr Hawl i Gywiro
- Yr Hawl i Ddileu
- Yr Hawl i Gludadwyedd
- Yr Hawl i Dynnu Caniatâd

Am fwy o wybodaeth am yr Hawliau hyn, cliciwch [yma](#).

#### Diogelwch Prosesu

Mae'r holl fyfyrwyr wedi'u cofrestru ar raglen rheoli cyflogadwyedd y Brifysgol, MetHub, sydd â meysydd allweddol o'ch cofnod myfyriwr. Mae eich apwyntiad ac unrhyw nodiadau rhyngweithio a gedwir gan yr Ymgynghorydd Gyrfaoedd neu'r Swyddog Cymorth Cyflogadwyedd yn cael eu cadw ar y system hon. Mae'r holl fanylion yn weladwy i staff yn y tîm Gwasanaethau Myfyrwyr a Chyflogadwyedd yn unig a chânt eu trin gyda'r cyfrinachedd mwyaf.

At ddibenion y rhaglen hon neu i gael cymorth gyrfaoedd, byddwn yn gofyn i chi fewngofnodi i MetHub fel myfyriwr graddedig gyda'ch cyfeiriad e-bost personol.

Gweithredwyd mesurau technegol a sefydliadol i sicrhau bod data personol a brosesir yn parhau i fod yn ddiogel, ond ni ellir gwarantu diogelwch llwyr. Os oes gennych bryder am ddull o drosglwyddo data, bydd y Brifysgol yn cymryd camau rhesymol i ddarparu dull amgen.

#### Cadw Data Personol

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am 3 blynedd ar ôl graddio neu am oes y rhaglen, pa un bynnag yw'r cyfnod hirach. Ar hyn o bryd mae'r rhaglen i fod i ddod i ben ar 31 Ionawr, 2022 ond gellid ei hymestyn. Ar ôl cyrraedd y cyfnod hwn, bydd eich Ffurflen Mynegi Diddordeb, Ffurflen Gofrestru, Asesiadau Cyflogadwyedd ac Adborth, ac unrhyw ddata personol arall yr ydym yn ei gadw i gynorthwyo eich cynnydd drwy'r rhaglen, yn cael eu dinistrio yn unol â [Pholisi Rheoli Cofnodion](#) y Brifysgol.

Gellir enwi cynnwys y ffurflenni hyn a'u defnyddio yn ddiweddarach i werthuso effeithiolrwydd y rhaglen. Nid yw data dienw yn destun deddfwriaeth diogelu data.

Bydd eich cyfrif MetHub yn parhau i fod yn weithredol er mwyn i chi allu cael cymorth gyrfaoedd oni bai eich bod yn gofyn fel arall.

#### Cyffredinol

Mae gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd Bolisi Diogelu Data, sydd ar gael [yma](#).

Os ydych yn dymuno gwneud cwyn am y ffordd y mae eich data personol wedi cael ei brosesu gallwch ddod o hyd i fanylion am sut i wneud hynny [yma](#).

#### Rhannu gwybodaeth gyda'n partneriaid;

Pan fyddwch yn cofrestru ar gyfer rhaglen Go Wales Plus byddwn yn creu cyfrif ar ein platfform fframwaith sgiliau, Potential.ly. Er mwyn galluogi eich cyfrif yn potential.ly byddwn yn anfon eich enw a'ch cyfeiriad e-bost. Gweler y [polisi preifatrwydd potential.ly](#) am fanylion pellach am sut y system yn defnyddio eich data.